

Lesley Griffiths AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig
Llywodraeth Cymru

24 Hydref 2018

Annwyl Lesley,

Trafod Bil Amaethyddiaeth Llywodraeth y DU

Fel y nodwyd yn fy llythyr ar 18 Hydref, mae'r Pwyllgor wrthi'n cynnal gwaith ar y darpariaethau sy'n berthnasol i Gymru yn y Bil Amaethyddiaeth gan Lywodraeth y DU. O ystyried arwyddocâd hanesyddol y Bil, a'r goblygiadau i sector amaethyddol Cymru yn sgil y darpariaethau sy'n berthnasol i Gymru, rydym yn awyddus i'ch cael chi gerbron y Pwyllgor i ateb cwestiynau'r Aelodau.

Rwy'n deall bod swyddogion Llywodraeth Cymru wedi hysbysu staff y Pwyllgor yn ffurfiol nad ydych yn gallu dod i gyfarfod y Pwyllgor ar 14, 22 na 28 Tachwedd, nac ychwaith 6 na 12 Rhagfyr. Mae'r Pwyllgor wedi cytuno felly y dylwn ysgrifennu atoch i'ch gwahodd yn ffurfiol, gan ddisgwyl y byddwch yn sicrhau bod amser ar gael yn eich dyddiadur i fodloni ein cais.

Bil Amaethyddiaeth Llywodraeth y DU yw'r cyntaf o'i fath ers Deddf Amaethyddiaeth 1947 ac mae'n darparu fframwaith deddfwriaethol i ddod â'r Polisi Amaethyddol Cyffredin i ben – polisi sydd wedi bod ar waith ers dros 40 mlynedd. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud cais i'r Bil gynnwys darpariaethau sy'n gosod pwerau sylweddol a helaeth ar Weinidogion Cymru. Mae hyn yn cynnwys –

- y pŵer i derfynu'n raddol daliadau uniongyrchol drwy reoliadau;
- y pŵer i gyflwyno drwy reoliadau gynlluniau cymorth ariannol newydd i ffermwyr a thirfeddianwyr;
- y pŵer i greu drwy reoliadau droseddau newydd a chosbau ariannol cysylltiedig; a'r



- pŵer i ddirprwyo swyddogaethau cymorth ariannol ar sefydliadau neu bersonau eraill.

Rydym yn gobeithio y bydd eich ymddangosiad gerbron y Pwyllgor yn cynnig cyfle i chi ymhelaethu ar eich amcanion polisi; egluro pam yr ydych yn credu bod y darpariaethau yr ydych wedi gwneud cais amdanynt yn briodol ac yn gymesur; a mynd i'r afael ag unrhyw faterion eraill mewn perthynas â'r ffordd y mae'r darpariaethau wedi'u drafftio.

Rwy'n deall eich bod wedi derbyn cais gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol i fod yn bresennol yn ei gyfarfod ar 5 Tachwedd i roi tystiolaeth ynghylch y Bil Amaethyddiaeth. Fel prif Bwyllgor y Cynulliad ar faterion gwledig, fe fyddwch, wrth gwrs, yn deall y bydd y Pwyllgor hwn yn dymuno trafod gwahanol agweddau ar y Bil â chi.

Os ydych chi mewn sefyllfa i aildrefnu eich ymrwymadau presennol, ein dyddiad dewisol ni ar gyfer cyfarfod fyddai naill ai 14 neu 22 Tachwedd. Os yw'r dyddiadau hyn yn anodd gennych, byddem hefyd yn barod i glustnodi amser ar 29 Tachwedd, 6 Rhagfyr neu 12 Rhagfyr. Byddwch am fod yn ymwybodol bod posibilrwydd mai yn Aberystwyth y bydd y Pwyllgor yn cwrdd ar 6 Rhagfyr fel rhan o'r digwyddiad Senedd@Aberystwyth.

Fel y gwyddoch, y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yw 14 Rhagfyr. Os na allwch aildrefnu unrhyw ymrwymadau sydd gennych eisoes, rydym yn credu y byddai'n briodol gofyn am gytundeb y Pwyllgor Busnes i ymestyn y dyddiad cau er mwyn sicrhau y gallwn eich cael gerbron y Pwyllgor.



Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'n gwahoddiad erbyn **dydd Gwener 26 Hydref** er mwyn inni allu penderfynu'n derfynol ar ein dull o ystyried y Bil.

Yn gywir,



Mike Hedges AC

Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

